



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Fframwaith ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion Rhan 2 – Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion Arbennig

Dyddiad cyhoeddi: 13 Mawrth 2018
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 05 Mehefin 2018

Trosolwg

Ym mis Mai 2017, lansiwyd y Fframwaith ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion yn dilyn proses ymgynghori. Lansiwyd y fframwaith diwygiedig ar gyfer gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion ym mis Mai 2017 gyda'r bwriad o wella'r cyfleoedd sydd ar gael i blant ddefnyddio'r gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion. Mae'n sicrhau y bydd gan bob ysgol uwchradd brif ffrwd a'i chlwstwr o ysgolion cynradd partner wasanaeth nyrsio mewn ysgolion penodedig yn seiliedig ar lefel anghenion lleol, a thîm sy'n meddu ar y cymysgedd sgiliau perthnasol. Cynlluniwyd y broses o ddatblygu rhan 2 o'r fframwaith, sef gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion arbennig, i ehangu'r dull gweithredu safonol hwn i gynnwys plant a gaiff eu haddysgu mewn ysgolion arbennig a phlant â lefelau uchel o anghenion arbennig mewn ysgolion prif ffrwd.

Sut i ymateb

Mae fersiwn ar-lein o'r holiadur.

<https://beta.llyw.cymru/fframwaith-drafft-ar-gyfer-gwasanaeth-nyrsio-mewn-ysgolion-arbennig>

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Enw: Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio

Cyfeiriad: Llywodraeth Cymru
CP2
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: Blwch Negeseuon E-bost Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio OCNOMailbox@wales.gsi.gov.uk

Diogelu data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â hwy. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, nodwch hynny wrth i chi ddychwelyd eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn am gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd yn rhaid i ni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, gallai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich sylwadau ar y fframwaith newydd drafft ar gyfer gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion arbennig at **Atodiad A**. Ail ran y fframwaith diwygiedig cyffredinol ar gyfer gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion, a lanswyd ym mis Mai 2017, yw'r fframwaith ar gyfer gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion arbennig. Cynlluniwyd y fframwaith ar gyfer ysgolion arbennig i sicrhau cysondeb o ran arfer ledled Cymru ac i sicrhau y gall plant fanteisio ar wasanaeth tîm ehangach i ddiwallu eu hanghenion.

Prif faterion

Mae'r model a gynigir yn y fframwaith yn nodi'r rôl

Sefyllfa bresennol

Ar hyn o bryd, gall pob ysgol arbennig gael gafael ar nyrs ysgolion arbennig. Fodd bynnag, yn wahanol i'r gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion, nid oes fframwaith i lywio arfer. Un o'r materion a amlygwyd gan y cynllun peilot oedd bod y gallu i gael gafael ar dîm gan ddefnyddio'r nyrs ysgolion arbennig fel pwynt cyswllt unigol o fudd mawr i blant a theuluoedd

Y rhesymeg dros ddatblygu ail ran y fframwaith ar gyfer gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion - gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion arbennig

Bu fframwaith ar gyfer gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion ar waith yng Nghymru ers 2008, a diwygiwyd y fframwaith hwn yn 2017; nid oes fframwaith tebyg ar gyfer gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion arbennig. Dangosodd gwerthusiad o'r fframwaith ar gyfer gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion ganlyniadau cadarnhaol o ran cysondeb y gwasanaeth a gaiff ddisgyblion gan eu nyrs ysgol. Bydd ehangu'r fframwaith i gynnwys ysgolion arbennig yn golygu y gellir sicrhau cysondeb tebyg.

- Mae'r cynnig i gyflwyno'r fframwaith ar gyfer nyrsio mewn ysgolion arbennig yn ddatblygiad polisi newydd, felly fe'i cynlluniwyd i ategu arfer da.
- Mae'r cynigion yn seiliedig ar gynllun peilot llwyddiannus a gynhaliwyd mewn tair ysgol arbennig yn ne Cymru a ystyriodd rôl graidd nyrsys mewn ysgolion arbennig yn ogystal â phwysigrwydd model yn cynnwys "tîm o amgylch y plentyn"
- Mae'r fframwaith drafft yn nodi cyfres o gynigion sy'n nodi rôl graidd i bob nyrs mewn ysgolion arbennig
- Mae hefyd yn disgrifio rôl y nyrs ysgolion arbennig fel cydgysylltydd mynediad at wasanaethau eraill
- O fewn y fframwaith, ceir disgrifiad hefyd o'r cysyniad o "dîm o amgylch y plentyn"

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Fframwaith ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion Arbennig:

Cwestiwn 1

Rhan gyntaf y fframwaith yw'r fframwaith ar gyfer gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion sy'n cynnwys darpariaeth gyffredinol i bob plentyn. Mae'r ail ran yn ehangu'r ddarpariaeth honno i gynnwys plant mewn ysgolion arbennig
A yw'n glir sut y caiff rhan 1 ei chymhwyso at ysgolion arbennig fel y disgrifir yn rhan 2?

YDY

YN RHANNOL

NAC YDY

Os ydych wedi ateb yn rhannol neu nac ydy, a allwch nodi pa faes sy'n aneglur?

Cwestiwn 2

Mae'r ddogfen yn amlinellu'r weledigaeth ar gyfer gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion arbennig yng Nghymru. A ydych yn cytuno â'r weledigaeth hon?

YDW

YN RHANNOL

NAC YDW

Os ydych wedi ateb yn rhannol neu nac ydw, a allwch nodi beth y dylem ei newid/ychwanegu yn eich barn chi?

Cwestiwn 3

Mae meysydd allweddol arfaethedig y fframwaith fel a ganlyn:

1. Sicrhau y cyrhaeddir safonau'r cynnig cyffredinol yn Rhan A
2. Sicrhau bod gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn cael eu bodloni
3. Cydgysylltu gofal, a chynllunio gofal a thriniaeth/gofal, i gynnwys
 - Canolbwyntio'n fwy ar iechyd meddwl a llesiant
 - Gweithio'n ddwys drwy ddefnyddio dulliau therapiwtig
 - Diwallu anghenion iechyd corfforol drwy ymyriadau ychwanegol a dwys
4. Cefnogi teuluoedd a gofalwyr

A ydych yn cytuno â'r pedwar maes a restrir?

YDW	YN RHANNOL	NAC YDW
Os ydych wedi ateb yn rhannol neu nac ydw, a allwch nodi pa feysydd neu newidiadau allweddol ychwanegol yr hoffech eu gweld?		

Cwestiwn 4

A ydych o'r farn bod disgrifiad digonol o'r sail dystiolaeth i ategu'r pedwar maes allweddol a ddisgrifir yng nghwestiwn 2?

YDW	YN RHANNOL	NAC YDW
Os ydych wedi ateb yn rhannol neu nac ydw, a allwch nodi manylion yr hyn y dylem ei ychwanegu yn eich barn chi?		

Cwestiwn 5

Mae atodiad y fframwaith yn nodi manylion y safonau yn yr agweddau ar y rôl a amlinellir yn y meysydd allweddol yng nghwestiwn 2. A ydynt wedi'u datblygu'n ddigon da?

YDYNT	YN RHANNOL	NAC YDYNT
Os ydych wedi ateb yn rhannol neu nac ydynt, a allwch nodi beth sydd ar goll a beth y dylem ei ychwanegu yn eich barn chi?		
Sicrhau y cyrhaeddir safonau'r cynnig		

cyffredinol yn Rhan A	
Sicrhau bod gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn cael eu bodloni	
Cydgysylltu gofal, a chynllunio gofal a thriniaeth/gofal, i gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> - <i>Canolbwyntio'n fwy ar iechyd meddwl a llesiant</i> - <i>Gweithio'n ddwys drwy ddefnyddio dulliau therapiwtig</i> - <i>Diwallu anghenion iechyd corfforol drwy ymyriadau ychwanegol a dwys</i> 	
Unrhyw feysydd ychwanegol a nodwyd yng nghwestiwn 2 yr hoffech i ni eu cynnwys	

Mae'r fframwaith yn sôn am y cysyniad o dîm o amgylch y plentyn. A ydych o'r farn ei fod yn cynnig esboniad digonol o'r tîm hwn a sut y caiff ei weithredu?		
YDW	YN RHANNOL	NAC YDW
Os ydych wedi ateb yn rhannol neu nac ydw, a allwch nodi pa wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen?		

Cwestiwn 6

A ydych o'r farn y bydd y fframwaith hwn yn cael effaith gadarnhaol ar bobl yn seiliedig ar y nodweddion gwarchoddedig canlynol:

- Anabledd
- Hil
- Rhyw ac ailbennu rhywedd
- Oed
- Crefydd
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Hawliau dynol
- Plant a phobl ifanc

YDW

YN RHANNOL

NAC YDW

Os ydych wedi ateb yn rhannol, eglurwch

**Ffurflen Ymateb
i'r
Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Cwestiwn ?: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â hwy yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:

Nodwch yma:

Mae'r ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma:



Fframwaith ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion, rhan 2 – Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion Arbennig

Cyflwyniad

Mae'r canllawiau¹ ar gefnogi dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig yn darparu fframwaith statudol ar gyfer diwallu anghenion gofal iechyd, gan gynnwys datblygu cynlluniau iechyd unigol. Mae hefyd, er enghraifft, yn darparu gwybodaeth i gefnogi ymarfer drwy roi arweiniad ar faterion megis rhannu gwybodaeth a storio meddyginiaethau. Dylai'r fframwaith hwn ar gyfer nyrsio mewn ysgolion arbennig gael ei ystyried o fewn y cyd-destun hwnnw.

Yn 2015, comisiynodd y Prif Swyddog Nyrsio adolygiad o'r gwasanaethau nyrsio sy'n cael eu darparu ar gyfer disgyblion mewn ysgolion arbennig er mwyn darganfod faint o fewnbwn sydd ei angen i wella iechyd a llesiant plant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysg yn yr ysgolion hyn. Y rheswm dros wneud hyn oedd y ffaith nad yw'r fframwaith presennol ar gyfer gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion i Gymru yn cynnwys y ddarpariaeth ar gyfer ysgolion arbennig.

Tynnodd yr adolygiad sylw at ystod eang o faterion a phryderon yn ymwneud ag iechyd oherwydd diffyg ffordd safonol o ddiwallu anghenion y disgyblion y mae angen iddynt gael eu haddysg mewn ysgol arbennig.

Ar ôl i Lywodraeth Cymru gael adroddiad yr adolygiad, cefnogodd Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg drwy roi arian iddo i benodi Nyrs Prosiect am flwyddyn i dreialu model nyrsio a darpariaeth gofal iechyd arall er mwyn diwallu anghenion disgyblion.

Roedd y model yn creu 'tîm o gwmpas y plentyn', ac ystyriwyd ei bod yn hanfodol cynnal modelau arfer da presennol lle roedd tîm amlddisgyblaethol cyn ysgol yn gweithio gyda phlant ag anghenion iechyd cymhleth. Cafodd tîm craidd o weithwyr proffesiynol ei greu ar gyfer y treial, a'i enw oedd y Tîm Integredig Plant.

Os oedd gan yr ysgol nyrs ar y safle, cytunwyd y byddai'n gweithredu fel cydgysylltydd y clinig; os nad oedd gan yr ysgol nyrs ar y safle, byddai cydgysylltydd y Tîm Iechyd Anabledd Plant yn ymgymryd â'r rôl hon. Ar y cyd â'r tîm craidd hwn, byddai pob gweithiwr proffesiynol ym maes addysg, iechyd a gofal cymdeithasol a oedd yn ymwneud â gofalu am y disgybl yn cael ei wahodd i fynychu er mwyn sicrhau bod sylw yn cael ei roi i bob maes gofal a chymorth a bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu.

Mae gwaith gwerthuso'n dangos, ar y safleoedd a gymerodd ran yn y treial, fod y model wedi bod o fudd i ddisgyblion, teuluoedd a'r gweithwyr proffesiynol dan sylw ac wedi atgyfnerthu'r angen i weithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau y caiff anghenion eu diwallu.

¹ <http://learning.gov.wales/resources/browse-all/supporting-learners-with-healthcare-needs/?jsessionid=D4109CBE3CEF8011C8248EB461C70A92?skip=1&lang=cy>

Atodiad A

Mae'r rhan ganlynol o'r Fframwaith Nyrsio mewn Ysgolion yn disgrifio'r safonau ar gyfer nyrsio mewn lleoliadau ysgolion arbennig, a chyfeirir ato fel y 'Fframwaith Nyrsio mewn Ysgolion Arbennig'. Mae'r 'Fframwaith Nyrsio mewn Ysgolion Arbennig' yn berthnasol i bob disgybl mewn ysgol arbennig, ond mae hefyd yn berthnasol i ddisgyblion â lefelau uchel o anghenion arbennig sy'n mynychu ysgolion prif ffrwd.

Mae'r ddogfen hefyd yn nodi manyleb a'r hyn a ddisgwylir gan y tîm amlddisgyblaethol ehangach sy'n cefnogi'r plant a'r bobl ifanc hyn.

Ffactorau sbardun

Mae'r fframwaith ar gyfer gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion arbennig yn cael ei lunio ar yr un pryd ag y bydd ffactorau allweddol eraill sy'n sbarduno polisi yn cael eu cyflwyno.

Mae Rhan A o'r fframwaith ar gyfer gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion yn amlinellu'r rhaglenni sy'n cael eu rhoi ar waith. Mae'r ffactorau sbardun yn yr adran hon yn ystyried goblygiadau'r rhaglenni hyn, ond o safbwynt nyrsio mewn ysgolion arbennig.

Cafodd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018² y Cydsyniad Brenhinol ar 24 Ionawr 2018. Mae'n creu'r fframwaith deddfwriaethol i wella'r gwaith o gynllunio a chyflwyno darpariaeth dysgu ychwanegol drwy ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar y person o nodi anghenion yn gynnar, rhoi prosesau cefnogi a monitro effeithiol ar waith ac addasu ymyriadau er mwyn sicrhau eu bod yn arwain at y canlyniadau dymunol. Bydd rôl y nyrs mewn ysgolion arbennig yn hanfodol bwysig i'r gwaith o helpu i weithredu'r broses asesu a chyflwyno newydd, ac un o safonau allweddol y fframwaith hwn yw sicrhau bod gofynion y Ddeddf yn cael eu cefnogi.

Yn 2015, lansiodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bolisi allweddol arall, sef *Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc*³. Mae'r rhaglen amlasiantaeth hon, sy'n cael ei harwain gan y GIG, yn gweithio i ail-lywio a newid pwyslais gwasanaethau iechyd emosiynol a meddyliol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru, yn unol ag egwyddorion [gofal iechyd darbodus](#)⁴. Fel rhan o'r rhaglen hon, caiff anghenion addysgol arbennig ar gyfer llwybrau Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a llwybrau niwroddatblygiadol eu hystyried, ac mae gan nyrsys mewn ysgolion arbennig rôl glir wrth roi'r rhaglen ar waith.

Mae Rhaglen Plant Iach Cymru⁵ a mecanweithiau cymorth llythrennedd emosiynol (ELSA)⁶ pellach sy'n cael eu cyflwyno yn bolisiau allweddol eraill mewn ysgolion sy'n berthnasol i rôl y nyrs mewn ysgolion arbennig.

² Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (mynediad: <http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/additional-learning-special-educational-needs/transformation-programme/legislation-and-statutory-guidance/?skip=1&lang=cy>)

³ Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc – Llywodraeth Cymru (2015)

⁴ Egwyddorion gofal iechyd darbodus – Llywodraeth Cymru (2015)

⁵ Rhaglen Plant Iach Cymru (2016) – Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016)

Atodiad A

Yn unol â Ffyniant i Bawb⁷, sy'n canolbwyntio ar iechyd meddwl a llesiant, mae'r fframwaith ar gyfer gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion arbennig yn cynnig sail i fynd i'r afael â rhai o'r prif heriau wrth sicrhau iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig yng Nghymru.

Mae'r fframwaith yn cael ei roi ar waith ar adeg pan fo prif argymhellion yr adolygiad o'r cwricwlwm yn Adroddiad Donaldson⁸ yn cael eu gweithredu. Mae hyn yn golygu bod pwyslais yn y cwricwlwm ar iechyd a llesiant yn ogystal ag ar y pynciau traddodiadol. Mae'r nyrs ysgol mewn lle delfrydol i gynorthwyo i ddatblygu'r polisi hwn.

Mae'r fframwaith ar gyfer gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion arbennig yn seiliedig ar hawliau dynol. Mae'n ymrwmo i ymgorffori'r [7 Nod Craidd](#) ar gyfer plant a phobl ifanc o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)⁹.

Gweledigaeth ar gyfer gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion arbennig yng Nghymru

Bydd nyrsys sy'n gweithio mewn ysgolion arbennig yn gwneud y canlynol:

- sicrhau bod pawb sy'n gweithio gyda phlant yn deall pa addasiadau rhesymol y mae angen eu gwneud ar gyfer y plentyn hwnnw a'i deulu er mwyn ei gwneud yn bosibl iddo gael yr un addysg, gofal iechyd a gofal cymdeithasol â phawb arall ac addysg, gofal iechyd a gofal cymdeithasol cymaradwy
- rhoi gofal, cymorth a chynghor i bob plentyn gan ddefnyddio canllawiau wedi'u cyhoeddi sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- gweithio mewn partneriaeth gyda'r plentyn, yr ysgol, rhieni a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol a bod plant yn cyrraedd eu llawn botensial i dyfu'n oedolion hapus ac iach
- cefnogi iechyd a llesiant plant drwy ddefnyddio dull iechyd cyhoeddus o atal, diogelu a hybu iechyd da
- defnyddio eu gwybodaeth a'u profiad i ragweld anghenion plant a'u gofalwyr
- cefnogi'r gwaith o leihau effaith anghydraddoldebau iechyd a sicrhau canlyniadau iechyd gwell ar gyfer plant a phobl ifanc
- bod yn bwynt cyswllt unigol a sicrhau cysondeb pan ofynnir am gymorth

⁶ Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA) – Llywodraeth Cymru (2016)

⁷ Ffyniant i Bawb – Llywodraeth Cymru (2017)

⁸ Adolygiad Donaldson a diwygio'r cwricwlwm 2016

⁹ CCUHP – Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 2008

Atodiad A

Yr hyn y mae plant a phobl ifanc yn ei ddweud wrthym

Bydd yr adran hon yn cynnwys canlyniadau'r digwyddiadau ymgynghori arfaethedig â phlant a theuluoedd fel rhan o'r cyfnod ymgynghori cyffredinol. Bydd hefyd yn dangos sut mae'r broses hon wedi dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu'r fframwaith.

Y model

Mae Rhan A o'r fframwaith, sef y fframwaith ar gyfer gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion (tudalen 8), yn defnyddio model o ymyriadau "**Cyffredinol; Ychwanegol a Dwys**". Mae'r cynnig cyffredinol wedi'i anelu at bob plentyn o oedran ysgol, ac mae plant mewn ysgolion arbennig yn cael eu cynnwys yn y cynnig hwnnw. Bydd un o'r safonau yn mynnu bod y gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion, nyrsys mewn ysgolion arbennig ac eraill yn gweithio mewn partneriaeth i wneud yr addasiadau rhesymol sydd eu hangen i sicrhau bod y cynnig cyffredinol yn hygyrch i bob plentyn ag anghenion addysgol arbennig.

O ystyried natur y gwasanaeth a gyflenwir gan nyrsys mewn ysgolion arbennig, mae'r safonau'n cyd-fynd â lefelau **Ychwanegol a Dwys** y model, fel yr amlinellir ar dudalen 9 o'r ddogfen nyrsio mewn ysgolion gyffredinol.

Meysydd allweddol y fframwaith

Dyma'r meysydd allweddol sy'n ffurfio'r safonau a welir yn yr atodiad:

1. Sicrhau y cyrhaeddir safonau'r cynnig cyffredinol yn Rhan A
2. Sicrhau bod gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn cael eu bodloni
3. Cydgysylltu gofal, a chynllunio gofal a thriniaeth/gofal, i gynnwys
 - Canolbwyntio'n fwy ar iechyd meddwl a llesiant
 - Gweithio'n ddwys drwy ddefnyddio dulliau therapiwtig
 - Diwallu anghenion iechyd corfforol drwy ymyriadau ychwanegol a dwys
4. Cefnogi teuluoedd a gofalwyr

1. Sicrhau y cyrhaeddir safonau'r cynnig cyffredinol yn Rhan A

Gellir gweld gwybodaeth am y safonau'r cynnig cyffredinol yn yr atodiad yn Rhan A o'r ddogfen hon sy'n dechrau ar dudalen 17. Mae'r cynnig cyffredinol yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

- Diogelu
- Hyrwyddo llesiant emosiynol a diwallu anghenion iechyd meddwl plant oedran ysgol
- Safonau imiwneiddio ar gyfer plant oedran ysgol yng Nghymru
- Safonau ar gyfer rhoi rhaglen mesur plant Cymru ar waith

Y nod i nyrsys sy'n gweithio mewn ysgolion arbennig yw gweithio gyda'r gwasanaeth nyrsio yn yr ysgol a gweithwyr iechyd plant proffesiynol eraill er

Atodiad A

mwyn sicrhau y cyrhaeddir y safonau cyffredinol hyn ar gyfer pob plentyn mewn ysgolion arbennig.

Mae'r cysyniad o addasiadau rhesymol yn thema sy'n codi droeon drwy gydol y fframwaith hwn, ac mae'n werth treulio ychydig o funudau yn ystyried yr hyn y mae'n ei olygu yng nghyd-destun cyflwyno'r cynnig cyffredinol i blant mewn ysgolion arbennig. Ar gyfer yr agwedd hon ar y fframwaith, caiff addasiadau rhesymol eu defnyddio i ddisgrifio'r ymyrraeth sydd ei hangen er mwyn i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ddiwallu angen gofal iechyd.

Mae nifer o adnoddau ar gael i gefnogi ymarferwyr (mae rhai enghreifftiau i'w gweld yn Atodiad 2) wrth wneud addasiadau rhesymol sy'n ystyried rhai o'r materion pwysig. Er enghraifft:

- Gwybodaeth hygyrch – sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn fformat y gall y plentyn ei ddeall
- Cymorth o ran caniatâd a gallu, gan wneud penderfyniadau er lles y plentyn
- Cyfathrebu – deall sut mae'r plentyn yn cyfathrebu, sut mae'n dangos ei deimladau a'r hyn sy'n well ganddo, datblygu a defnyddio proffiliau cyfathrebu a system goleuadau traffig (Atodiad 2)
- Deall ofnau a chasbethau'r plentyn a lleihau ei gysylltiad â'r rhain
- Deall unrhyw faterion sy'n ymwneud â phrosesu gwybodaeth gymdeithasol/prosesu synhwyraidd
- Gweithio gyda theuluoedd a gofalwyr
- Mabwysiadu dull proffesiynol o ddisensiteiddio gan ddefnyddio cynllun gofal a gynlluniwyd, y cytunwyd arno ac a gymeradwywyd yn foesegol
- Mabwysiadu cymorth ymddygiadol cadarnhaol
- Gwneud ymdrech arbennig – mae rhai enghreifftiau o arfer gorau wrth wneud addasiadau rhesymol yn cynnwys bod yn hyblyg ac yn greadigol

2. Sicrhau bod gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn cael eu bodloni

Ar y cam hwn, rôl y nyrs yn yr ysgol arbennig fydd cefnogi'r gwaith o weithredu a monitro gofynion y Ddeddf sy'n ymwneud ag asesu ac â'r elfen iechyd yn y cynlluniau iechyd unigol. Wrth i brosesau'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ymsefydlu, efallai y bydd gofyn i nyrsys mewn ysgolion arbennig ymgymryd â rolau a gweithgareddau ychwanegol. Mae nyrsys mewn ysgolion mewn sefyllfa dda i gefnogi'r gwaith o weithredu, monitro a gwerthuso cynlluniau iechyd sy'n ategu'r addasiadau rhesymol y mae angen eu gwneud er mwyn sicrhau bod cyfleoedd addysgol cymaradwy ar gael yn deg.

3. Cydgysylltu gofal, a chynllunio gofal a thriniaeth/gofal

Pan fo'r plentyn yn gymwys o dan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010¹⁰, gall nyrs yr ysgol arbennig, gan ddibynnu ar ei phroffil proffesiynol, gael ei phenodi'n gydgyssylltydd gofal yn nhermau gofynion cyfreithiol y mesur.

Roedd y gwaith treialu gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion arbennig, yn nhermau iechyd a llesiant cyffredinol y plentyn, hefyd yn argymhell nyrs yr ysgol arbennig fel unigolyn sydd mewn sefyllfa dda i ymgymryd â rôl y cydgysylltydd gofal clinigol ac i fod yn gyfrifol am y broses cynllunio gofal cyffredinol ar gyfer agweddau clinigol ar ofal y plentyn tra ei fod yn yr ysgol.

Rhan o rôl y cydgysylltydd gofal fydd cefnogi'r gwaith o weithredu elfennau ychwanegol ehangach megis rhoi'r Fframwaith Cydraddoldebau Iechyd Plant¹¹ ar waith pan gaiff ei gyflwyno, a hefyd y broses archwilio iechyd flynyddol fel sy'n berthnasol, a chefnogi'r gwaith o ddatblygu pasbortau iechyd sydd oll yn helpu i sicrhau bod darpariaeth gofal iechyd ehangach ar gael.

Fodd bynnag, un o'r prif bwyntiau a godwyd gan gydweithwyr a theuluoedd wrth ddatblygu'r fframwaith yw y dylai fod gan blant a theuluoedd **bwynt cyswllt unigol** i'w gwneud yn bosibl i ddefnyddio ystod o wasanaethau gofal iechyd sy'n eu cefnogi tra eu bod yn gymwys i gael gwasanaethau oedran ysgol. Gallai rôl y cydgysylltydd, felly, ehangu i gynnwys gwasanaethau eraill yn y gymuned a all gefnogi'r plentyn a'i deulu y tu allan i'r amgylchedd ysgol.

Dylai nyrs yr ysgol arbennig ymgymryd â rôl y cydgysylltydd gofal clinigol cyffredinol pan fydd y plentyn mewn addysg.

Dylai'r rôl hon ganolbwyntio ar rai meysydd â blaenoriaeth y mae'r grŵp cyfeirio ar gyfer gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion arbennig wedi tynnu sylw atynt. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- **Canolbwyntio'n fwy ar iechyd meddwl a llesiant**

Mae'r cynnig cyffredinol yn Rhan A yn canolbwyntio ar iechyd meddwl a llesiant. Drwy ganolbwyntio'n fwy ar iechyd meddwl a llesiant, yn achos gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion arbennig, dylid seilio'r cynnig hwn ar ddealltwriaeth o'r effaith y mae anghenion addysgol arbennig yn ei chael ar iechyd meddwl a llesiant. Mae'n hanfodol cydnabod hyn a datblygu strategaethau sy'n cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd, ac mae hyn yn ffurfio rhan o'r safonau yn Atodiad 1.

"Children with learning disabilities [in England] are at increased risk of exposure to all of the major categories of social determinants of poorer

¹⁰ Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

¹¹ Fframwaith Cydraddoldebau Iechyd – NDTi 2013

Atodiad A

*physical and mental health*¹². Er bod yr adroddiad hwn yn berthnasol i Loegr, mae'n rhoi syniad clir o effaith anghydraddoldebau ar blant ag anableddau dysgu, ac un o brif rolau iechyd cyhoeddus gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion arbennig yw defnyddio strategaethau i leihau eu heffaith.

- **Gweithio'n ddwys drwy ddefnyddio dulliau therapiwtig**

Mae'r fframwaith yn defnyddio strwythur ac argymhellion y rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc er mwyn disgrifio'r dulliau therapiwtig a hyrwyddir ynddi ym meysydd ***Ymyrraeth Gynnar; Anableddau niwroddatblygiadol ac anableddau dysgu a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed***. Y rheswm dros wneud hyn, yn nhermau ymyriadau therapiwtig sy'n cefnogi iechyd meddwl a llesiant y plentyn ac sy'n rhoi'r cymorth gorau i deuluoedd a gofalgwyr, yw bod y camau sy'n gysylltiedig â llwybrau dynodedig y rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn seiliedig ar dystiolaeth a, thrwy ddefnyddio'r fframwaith hwn, gallwn ddechrau sicrhau bod modelau ymyrryd yn gyson ledled Cymru.

Mae ymyrraeth gynnar wedi'i chynnwys gan ei bod yn rhan hanfodol o rôl hybu iechyd ac atal y nyrs yn yr ysgol arbennig; p'un a oes newid mewn ymddygiad sy'n dechrau achosi problemau, neu ddirywiad amlwg yng nghyflwr iechyd meddwl y plentyn, gall strategaethau ymyrraeth gynnar atal derbyniadau diangen i'r ysbyty neu leoliadau iechyd meddwl neu ddirywiad mewn ymddygiad heriol, gan arwain at leoli'r plentyn mewn cyfleuster Gwasanaethau Iechyd Meddwl a'r Glasoed y tu allan i'w ardal leol.

Yn yr un modd, gall cefnogi ymyriadau therapiwtig medrus fel rhan o'i rôl a'i gallu fod yn rhan o rôl y nyrs mewn ysgolion arbennig ac, yn nhermau rhoi gofal, mae hyn yn bwysig i gefnogi'r plentyn a'i deulu.

Mae pob un o'r meysydd therapiwtig yn seiliedig ar rai themâu cyffredin. Gellir eu gweld yn yr adran ar gydgyssylltu gofal o dan yr adran safonau yn Atodiad 1; mae'n werth cofio pa mor bwysig yw deall sut mae plentyn yn cyfathrebu a sut mae hyn yn llywio unrhyw ymyriad therapiwtig. Mae datblygu sgwrs therapiwtig a chydberthynas gadarnhaol a chefnogol yn ymyriad medrus sylfaenol i'r nyrs yn yr ysgol arbennig.

- **Diwallu anghenion iechyd corfforol drwy ymyriadau ychwanegol a dwys**

Mae'r gydberthynas rhwng plant â lefelau uchel o anghenion addysgol arbennig ac anghenion iechyd corfforol ychwanegol wedi'i dogfennu'n helaeth a cheir dealltwriaeth dda ohoni. Mae anghenion iechyd yn amrywio o un plentyn i'r llall, ac mae'n bwysig bod y nyrs yn yr ysgol arbennig yn deall y cyflyrau cysylltiedig cyffredin a all fod gan blant mewn ysgolion arbennig.

¹² The determinants of health inequities experienced by children with learning disabilities – Iechyd Cyhoeddus Lloegr (2013) (tudalen 5)

4. Cefnogi teuluoedd a gofalwyr

Gwnaeth y teuluoedd a gymerodd ran yn y treial ddweud pa mor bwysig yw rôl y nyrs mewn ysgolion arbennig wrth eu helpu i ofalu am eu plant, ac mae'n bwysig bod y cyfraniad hwn yn cael ei gydnabod a'i ystyried yn rhan hanfodol o'r fframwaith ar gyfer gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion arbennig.

Mae llawer o rieni o'r farn mai cefnogi plant sy'n ymddwyn mewn ffordd heriol yw'r rhan fwyaf anodd o'u rôl fel rhiant a gofalwr, ac mae cefnogaeth yn y maes hwn yn allweddol. Os yw'r nyrs yn yr ysgol arbennig yn gymwys i roi cymorth ymddygiadol cadarnhaol, yn debyg i Nyrs Gofrestredig (Anabledd Dysgu), mae'n bosibl y gall roi cymorth uniongyrchol i'r teulu. Os nad yw'n gymwys, mae'n debygol y bydd yn cefnogi'r broses fel y cydgysylltydd ac fel pwynt mynediad i dîm ehangach a all helpu'r plentyn gyda heriau o'r fath.

Yn yr un modd, o ran helpu'r rhai ag anableddau corfforol ychwanegol a phlant ag anableddau dysgu a chorfforol dwys, mae dwy elfen i rôl y nyrs mewn ysgolion arbennig, sef cefnogi'r teuluoedd a'r gofalwyr yn uniongyrchol a hefyd sicrhau bod y tîm o gwmpas y plentyn ar gael i roi'r cymorth sydd ei angen.

Atodiad A

Rôl y nyrs ym maes nyrsio mewn ysgolion arbennig – cwestiynau ac atebion:

C – Pwy yw nyrsys mewn ysgolion arbennig, a beth maent yn ei wneud?

A – Caiff nyrsys mewn ysgolion arbennig eu cyflogi gan y bwrdd iechyd lleol fel arfer. Maent yn gweithio fel rhan o dîm ehangach yr ysgol, ond mae ganddynt rôl hanfodol hefyd yn y gwaith o gydgyssylltu a chydweithredu â'r tîm amlddisgyblaethol sy'n darparu tîm o gwmpas y plentyn a'i deulu. Gallant ddod o unrhyw faes nyrsio, a gallant fod yn nyrsys oedolion sydd wedi cael hyfforddiant ychwanegol; nyrsys plant cofrestredig; nyrsys anabledd dysgu cofrestredig, a gall rhai fod yn nyrsys iechyd meddwl cofrestredig. Mae gan nyrsys ym mhob un o'r meysydd nyrsio set graidd o sgiliau ac mae disgwyl iddynt gyrraedd y safonau a nodir yn y ddogfen hon. Fodd bynnag, mae rhai nyrsys wedi cael hyfforddiant mewn meysydd penodol a gall fod angen iddynt ddefnyddio arbenigedd, er enghraifft Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, neu geisio cymorth ymddygiadol gan nyrsys sy'n gweithio yn y timau iechyd cymuned ehangach.

C – Sut mae nyrsys mewn ysgolion arbennig yn cael eu cynorthwyo a'u goruchwylio?

A – Mae hwn yn faes i'w atgyfnerthu wrth i'r fframwaith gael ei gyflwyno. Mae'n bwysig bod pob nyrs yn cael ei goruchwylio'n broffesiynol mewn rhyw ffordd, a chyfrifoldeb y bwrdd iechyd, rheolwyr nyrsys a'r ymarferydd unigol fel ei gilydd yw sicrhau bod hyn yn digwydd. Yn unol â'r cynnig cyffredinol, ac o ystyried natur rôl y nyrs mewn ysgolion arbennig, gall nyrsys mewn ysgolion arbennig eu cael eu hunain mewn rhai sefyllfaoedd anodd a sensitif, er enghraifft sefyllfaoedd sy'n ymwneud â diogelu. Mae'n hanfodol ffurfioli'r broses oruchwylio a sicrhau bod cymorth gan reolwyr ar gael yn ôl yr angen ac yn hygyrch.

C – Pa gyfleoedd sydd ar gael iddynt o ran datblygiad proffesiynol parhaus ac ailddilysu?

A – Cyfrifoldeb y nyrs a'r cyflogwr yw sicrhau ei bod yn ymglyfarwyddo â'r datblygiadau diweddaraf o ran ymarfer, a dylai byrddau iechyd ystyried y cwestiwn hwn wrth ddatblygu'r gwasanaeth. Fel rhan o'r adolygiad parhaus o'r ailddilysu, dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r trefniadau ar gyfer nyrsys mewn ysgolion.

C – Sut y gellir helpu nyrsys mewn ysgolion arbennig i ddefnyddio systemau TG a gwneud defnydd gwell o dechnoleg?

A – Dylid ystyried hyn wrth gyflwyno systemau TG newydd yn genedlaethol, yn benodol y ffordd y mae'r systemau hyn yn gweithio i nyrsys mewn ysgolion arbennig. Mae cyngor a gafwyd gan y fforwm cenedlaethol ar gyfer gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion yn un ffordd o nodi eu hanghenion.

C – Pa fathau o ymyriadau a ddisgwylir gan nyrsys mewn ysgolion arbennig?

A – Mae disgwyl i nyrsys mewn ysgolion arbennig edrych ar y plentyn, ei deulu a'r rhai sy'n gofalu amdano ac yn ei gefnogi mewn ffordd gyfannol. Byddant yn defnyddio ymyriadau ychwanegol ac arbenigol i gefnogi'r plentyn. Cytunir ar rai o'r

Atodiad A

ymyriadau hyn drwy broses gynllunio sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol eraill megis therapyddion lleferydd ac iaith neu seicolegwyr. Gall y nyrsys eu hunain gychwyn ymyriadau eraill os bydd y tîm amlddisgyblaethol yn cytuno i hynny. Dylai pob ymyriad fod yn seiliedig ar dystiolaeth a dilyn canllawiau cydnabyddedig. Mae Atodiad 2 yn cynnwys rhai adnoddau, a'r nod yw ychwanegu at y rhain fel dogfen fyw. Er enghraifft, mae'r safonau ar gyfer plant ac oedolion ag anableddau dysgu dwys a lluosog wedi'u cynnwys fel fframwaith awgrymedig i'w fabwysiadu, fel y bo'n briodol.

C – Beth yw rôl nyrsys mewn ysgolion arbennig o ran rheoli a storio meddyginiaethau?

A – Mae nyrsys mewn ysgolion arbennig yn dilyn y canllawiau yn “cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd” sy'n disgrifio'r disgwyliadau o ran storio a gweinyddu meddyginiaethau. Mae gan nyrsys mewn ysgolion arbennig rôl hefyd yn y gwaith cyffredinol o fonitro a rheoli meddyginiaethau, a hynny mewn partneriaeth â'r rhai sy'n rhoi'r presgripsiynau ac â fferyllwyr.

Rhwydweithiau a strwythurau

Mae Rhan A yn disgrifio'r berthynas rhwng nyrs yr ysgol a Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru. Y bwriad yw cynnwys nyrsys mewn ysgolion arbennig yn y broses honno. Roedd bwrdd gweithredu cenedlaethol yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r fframwaith gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion a ddisgrifir yn Rhan A. Bydd y broses o weithredu'r fframwaith ar gyfer gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion arbennig yn ffurfio rhan o waith y bwrdd hwn.

Mae fforwm a chymuned ymarfer yn bodoli ar gyfer y maes nyrsio mewn ysgolion. Yn yr un modd, byddant ar gael i nyrsys sy'n gweithio mewn ysgolion arbennig. Mae Cryfhau'r Ymrwymiad yn grŵp nyrsio anableddau dysgu i Gymru gyfan. Yn ystod 2018, bydd ei swyddogaeth a'i aelodaeth yn cael eu hadolygu. Bydd gofyn i gynrychiolwyr o'r maes nyrsio mewn ysgolion arbennig ymuno â'r grŵp newydd yn y dyfodol.

Mae dwy gymuned o grwpiau ymarfer yn bodoli, sy'n cael eu cefnogi gan 1000 o Fywydau: un ar gyfer pobl ag anableddau dysgu dwys a lluosog ac un ar gyfer ymddygiad heriol. Gall fod o fudd i nyrsys mewn ysgolion arbennig gymryd rhan yn y ffora hyn.

Gweithlu

Dylai o leiaf un nyrs ddynodedig, sydd wedi'i chyflogi gan fwrdd iechyd ac sy'n nyrs gofrestredig, fod ar gael i bob ysgol arbennig. Gall nyrsys ddod o gefndiroedd gwahanol, ond dylent allu dangos cymwyseddau sy'n golygu y gellir cyrraedd y safonau. Gall nyrsys mewn ysgolion arbennig ddod o un o'r cefndiroedd canlynol: nyrsio anableddau dysgu, nyrsio plant neu, o bryd i'w gilydd, nyrsio iechyd meddwl fel rhan o Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed; gall fod gan rai ohonynt gymhwyster Nyrsys Iechyd y Cyhoedd Cymunedol Arbenigol.

Atodiad A

Argymhellir bod y cymhwyster, y profiad a'r cymwyseddau yn cyd-fynd ag anghenion yr ysgol. Er enghraifft, efallai y bydd angen nyrs plant ar ysgol â phlant sydd â lefel uchel o anghenion gofal iechyd corfforol ac sy'n cael eu cefnogi gan dechnoleg, tra bod angen nyrs anabledau dysgu ar ysgol â nifer fawr o blant sy'n ymddwyn mewn ffordd heriol. Argymhellir bod y byrddau iechyd yn ystyried sgiliau'r nyrsys sy'n cefnogi'r ysgolion arbennig fel rhan o'u gwaith.

Crynodeb

O safbwynt y gweithlu, dyma'r prif flaenoriaethau:

- Sicrhau bod gan bob ysgol arbennig nyrs ddynodedig â'r sgiliau priodol i ddiwallu anghenion yr ysgol a chyrraedd y safonau hyn
- Sicrhau bod disgrifyddion y rôl a disgrifiadau'r swydd yn adlewyrchu'r safonau yn y fframwaith hwn yn gyson
- Sicrhau bod nyrsys mewn ysgolion arbennig yn cael cyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol yn barhaus i'w galluogi i gyrraedd y safonau
- Sicrhau bod cymuned ymarfer ar gyfer nyrsys mewn ysgolion arbennig yn cael ei sefydlu fel rhan o'r rhwydwaith nyrsio mewn ysgolion ehangach
- Sicrhau bod nyrsys mewn ysgolion arbennig yn cael eu goruchwylio gan gymheiriaid
- Sicrhau bod arweinyddiaeth a'r gwaith cydgysylltu/y pwynt mynediad unigol yn cael sylw penodol a'u bod yn cael eu cefnogi drwy addysg a hyfforddiant a thrwy greu strwythurau i'w gwneud yn bosibl i gyflawni'r rhan hon o'r rôl.

Gweithio gyda thimau cymuned

Mae timau cymuned plant yn bodoli yn ardal pob bwrdd iechyd. Maent yn gweithredu mewn ffyrdd gwahanol. Argymhellodd y treial na ddylid rhagnodi'r tîm ac y gellir defnyddio 'rhith dîm', sy'n golygu bod modd galw ar ystod o weithwyr proffesiynol eraill. Dylai o leiaf ymarferydd ar lefel meddyg ymgynghorol (a all fod yn ymgynghorydd anfeddygol, gan ddibynnu ar anghenion), therapyddion, tîm nyrsio cymuned a gwasanaethau gofal sylfaenol fod ar gael i bob plentyn mewn ysgol arbennig.

Dylid hefyd gydgysylltu gwasanaethau megis sgrinio, gwasanaethau golwg a chlyw a gwasanaethau deintyddol, ac unrhyw gyfraniad arbenigol gan wasanaethau sylfaenol, drwy nyrs yr ysgol arbennig.

Dylai'r berthynas rhwng nyrs yr ysgol arbennig fel cydgysylltydd a phwynt mynediad unigol i'r tîm ehangach gael ei hatgyfnerthu. Gallai hyn olygu datblygu ffyrdd newydd o weithio a seilweithiau i gefnogi hyn.

Mae rheoli ac adolygu meddyginiaethau yn elfen hanfodol, a dylid rhoi pwyslais arbennig ar hyn yn y tîm ehangach.

Atodiad 1 – Safonau gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion arbennig i Gymru gyfan

Safon	Camau gweithredu
Sicrhau y cyrhaeddir safonau'r cynnig cyffredinol yn Rhan A	<u>Cyfeiriwch at Atodiad 1 yn Rhan A o'r fframwaith</u>
Sicrhau bod gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn cael eu bodloni	<ul style="list-style-type: none"> • Yn deall y trefniadau ar gyfer rhoi'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg ar waith yn ei hysgol ei hun, yn unol â gofynion y bwrdd iechyd • Yn deall y rôl y mae disgwyl iddi ymgymryd â hi • Yn gwerthuso ac yn adolygu effeithiolrwydd ei rôl yn rheolaidd • Yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gael ei goruchwylio, gweithio fel tîm ac adolygu er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r plentyn unigol, a hynny drwy'r trefniadau ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol • Yn ymarfer o fewn fframwaith y canllawiau statudol "cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd"
Cydgysylltu gofal, a chynllunio gofal a thriniaeth/gofal	<ul style="list-style-type: none"> • Yn gwybod pa wasanaethau a chymorth sydd ar gael ac yn sicrhau bod eraill yn gwybod hefyd • Yn helpu pobl a allai elwa o wasanaethau i gael gwybodaeth amdanynt mor hawdd â phosibl. Mae hyn yn cynnwys cael gwybodaeth am yr hyn sydd ar gael, pryd a ble • Yn helpu pobl i gael gafael ar wybodaeth am wasanaethau ac yn cynnig system gymorth sy'n cynnwys pwyntiau cyswllt hygyrch a chyson, yn ddelfrydol unigolion enwebedig • Yn llunio ac yn cyflwyno cynlluniau gofal a thriniaeth sy'n canolbwyntio ar y person ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth • Yn cefnogi'r broses archwilio iechyd flynyddol lle y bo'n berthnasol • Yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu pasbortau iechyd • Yn gweithredu fel y cydgysylltydd gofal enwebedig lle y bo'n briodol • Yn gweithio'n unol â chod(au) ymarfer proffesiynol

Atodiad A

Canolbwyntio'n fwy ar iechyd meddwl a llesiant	<ul style="list-style-type: none">• Yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau asesu perthnasol sy'n seiliedig ar dystiolaeth• Yn defnyddio deddfwriaeth a chanllawiau ar iechyd meddwl yn effeithiol• Yn sensitif i effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac yn defnyddio strategaethau i helpu i leihau eu heffaith• Yn cynnig gwasanaeth ymgynghori i eraill• Yn defnyddio asesiadau ac adnoddau rheoli risg sy'n seiliedig ar dystiolaeth• Yn deall canllawiau NICE ar arfer gorau wrth hybu iechyd meddwl ymhlith plant a phobl ifanc• Yn deall sut mae'r "teulu" fel system a ffactorau amgylcheddol yn cael eu hystyried er mwyn nodi'r ymyriadau/triniaeth sydd fwyaf priodol ar sail tystiolaeth i bob unigolyn a'i deulu• Yn defnyddio gwybodaeth weithredol am ddulliau gweithredu/modelau megis: Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol, Dadansoddi Ymddygiad Cymhwysol, Model Gwella wedi Trawma• Yn datblygu ac yn mireinio cysylltiadau gweithio effeithiol â phroffesiynau ac asiantaethau er mwyn hyrwyddo dull amlasiantaethol o ymyrryd, darparu'n lleol a chynnig rhwydweithiau cymorth i blant a phobl ifanc, eu teuluoedd a'u gofalwyr• Yn defnyddio gwybodaeth fanwl am ymyriadau fferyllol a ddefnyddir i reoli symptomau cyflyrau iechyd meddwl. Yn deall y rhesymeg dros ddefnyddio, monitro ac adolygu effeithiolrwydd, sgil effeithiau ac ati• Bod â'r sgiliau a'r gallu i roi hyfforddiant, cymorth, arweiniad a chynghor i deuluoedd cyfan• Yn arfer barn broffesiynol er mwyn gweithio'n briodol â'r teulu, gofalwyr a'r person ifanc i sicrhau dull cyd-gynhyrchiol o asesu, llunio a datblygu cynlluniau gofal• Yn gymwys wrth werthuso a defnyddio'r tîm amlddisgyblaethol i sicrhau bod y gwaith hwn yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn broses barhaus• Yn deall bod pob cyfle i gyfathrebu a rhyngweithio yn gyfle i ddefnyddio sgiliau therapiwtig• Yn sicrhau bod diben i unrhyw sgwrs a'i bod yn gwybod i ba gyfeiriad i dywys y sgwrs
---	---

Atodiad A

	<ul style="list-style-type: none">• Yn deall pa mor bwysig yw ffiniau proffesiynol fel rhan o gydberthnasau therapiwtig, gan ddangos ymwybyddiaeth o fregusrwydd unigolion• Yn gymwys i ddefnyddio therapïau priodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn unol â'r cynllun gofal, ei chymhwysedd proffesiynol a'i hyfforddiant ei hun
Gweithio gyda dulliau therapiwtig	<p>YMYRRAETH GYNNAR</p> <ul style="list-style-type: none">• Yn deall pwysigrwydd a nodau gwasanaeth ymyrraeth gynnar• Yn gallu cydnabod argyfyngau sy'n codi• Yn arfer barn broffesiynol wrth uwchgyfeirio• Yn gallu defnyddio ymyriadau byr pan fo'n angenrheidiol• Yn defnyddio ymyriadau therapiwtig effeithiol y gwyddys eu bod yn gweithio ym maes ymyrraeth gynnar• Yn rhoi strategaethau lleihau risg ar waith sy'n seiliedig ar deuluoedd• Yn defnyddio'r cymwyseddau priodol o'r fframwaith niwroddatblygiadol a'r 'fframwaith medrus' ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed <p>ANABLEDDAU NIWRODDATBLYGIADOL AC ANABLEDDAU DYSGU</p> <ul style="list-style-type: none">• Yn deall ac yn gwybod am gyflyrau niwroddatblygiadol, gan gynnwys yr anableddau dysgu sydd gan blant a phobl ifanc• Yn ymwybodol o'r cyfraddau cyffredinrwydd• Yn gwybod ym mha ffyrdd gwahanol y gall cyflyrau niwroddatblygiadol gyflwyno eu hunain yn y boblogaeth anableddau dysgu• Yn ymwybodol o bwysigrwydd dull sy'n canolbwyntio ar atal• Yn deall y llwybr niwroddatblygiadol penodol• Yn defnyddio dulliau cadarnhaol ac effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth ymdrin ag unigolion â chyflyrau niwroddatblygiadol a/neu sy'n ymddwyn mewn ffordd heriol• Yn gallu cyfathrebu'n effeithiol gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys dulliau di-eiriau ac ategol, i ddiwallu anghenion cyfathrebu unigol• Yn deall y cysyniad o ddulliau ymddygiadol cadarnhaol bod unrhyw ymddygiad yn ffordd o gyfathrebu• Yn defnyddio dulliau ymarferol o ddadansoddi ymddygiad, yn ogystal ag amrywiaeth o adnoddau asesu diagnostig• Yn hyrwyddo pwysigrwydd defnyddio'r opsiynau

	<p>lleiaf cyfyngol i hwyluso cynhwysiant a gwella ansawdd bywyd</p> <p>GWASANAETHAU IECHYD MEDDWL PLANT A'R GLASOED</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn gwybod llawer am y cyflyrau iechyd meddwl a all effeithio ar blant a phobl ifanc, ac yn defnyddio ymchwil i ymgyswngol â'r datblygiadau diweddaraf • Yn deall y dull Dewis a Phartneriaeth ac yn gallu ei ddefnyddio • Yn gallu asesu'r ffordd y mae'r plentyn yn gweithredu mewn sefyllfaoedd ac o dan amgylchiadau perthnasol ac amrywiol • Yn ystyried amrywiaeth o ffactorau perthnasol, gan gynnwys anghenion iechyd a chorfforol, ymddygiadau peryglus, cyflyrau sy'n ymddangos ar yr un pryd, lefel bregusrwydd ac amgylchiadau cymdeithasol • Yn defnyddio Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 fel sail i lunio a datblygu cynllun gofal sy'n canolbwyntio ar y person • Yn deall pwysigrwydd cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl Cymru (1983) pan fo'n berthnasol i'r person ifanc • Yn gallu defnyddio technegau ymddygiadol priodol ac yn sicrhau y caiff unrhyw arferion cyfyngol eu rhoi ar waith o fewn protocol caeth, gan ystyried cod ymarfer Deddf Iechyd Meddwl (Cymru) 2016 a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol, yn ogystal â pholisïau lleol • Yn gallu rheoli meddyginiaethau, yn gwybod am y meddyginiaethau sy'n cael eu defnyddio ac yn ymwybodol o unrhyw faterion, problemau posibl a sgil effeithiau; yn arsylwi'n briodol i gefnogi'r defnydd therapiwtig o feddyginiaethau ac osgoi gordriniaeth • Yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gael ei goruchwylio, gweithio fel tîm ac adolygu er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r plentyn unigol
<p>Diwallu anghenion gofal iechyd corfforol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yn deall rôl hybu iechyd, atal a diogelu'r nyrs yn yr ysgol arbennig a'r ffordd y mae cefnogi gofal iechyd corfforol yn rhan ohoni • Yn gwybod llawer am y problemau gofal iechyd corfforol cyffredin sy'n gysylltiedig ag anghenion addysgol arbennig ac yn gallu ymateb i'r rhain, gan gynnwys: epilepsi ac ymateb i statws; problemau gastroenteroleg gan gynnwys rhwymedd; problemau anadlol; problemau cyhyrsgerbydol; problemau ymataliaeth a hyfywedd meinwe • Yn deall pwysigrwydd maeth, deiet, bwydo a

Atodiad A

	<p>hydradiad; yn gallu helpu i fwydo gyda thiwb pan fo angen</p> <ul style="list-style-type: none">• Yn deall pwysigrwydd rheoli osgo yn dda a hyfywedd meinwe• Yn gallu rheoli meddyginiaethau, yn gwybod am y meddyginiaethau sy'n cael eu defnyddio ac yn ymwybodol o unrhyw faterion, problemau posibl a sgil effeithiau; yn arsylwi'n briodol i gefnogi'r defnydd therapiwtig o feddyginiaethau ac osgoi gordriniaeth• Yn gallu defnyddio unrhyw dechnoleg gynorthwyol ac unrhyw gymhorthion ac offer• Yn cefnogi unrhyw ofal sy'n ymwneud â diwedd bywyd a gofal lliniarol mewn modd sensitif
Cefnogi rhieni a gofalwyr	<ul style="list-style-type: none">• Yn deall sut mae rôl y nyrs yn yr ysgol arbennig yn cefnogi rhieni fel rhan o dîm ehangach yr ysgol a thrwy'r tîm o gwmpas y plentyn sydd ar gael yn y gymuned• Yn arfer barn broffesiynol wrth asesu'r dull priodol a mwyaf sensitif o gefnogi pob teulu unigol• Yn cynnal ffiniau proffesiynol wrth gefnogi teuluoedd a gofalwyr• Yn parchu cyfrinachedd• Yn defnyddio dulliau cyfathrebu therapiwtig yn effeithiol• Yn darparu addysg, gwybodaeth a chyingor ac yn cydnabod terfynau ei rôl a'i gallu proffesiynol ei hun• Yn deall pryd a ble i gyfeirio unigolion i gael rhagor o gymorth• Yn ymyrryd yn uniongyrchol er mwyn ei gwneud yn bosibl i'r teulu/gofalwyr ddysgu o brofiad• Yn gwybod pryd a sut i dynnu cymorth yn ôl mewn ffordd garedig a sensitif pan fydd yn briodol• Yn deall pwysigrwydd cadw cofnodion proffesiynol

Atodiad A

Atodiad 2 – adnoddau a dolenni

Maes	Adnodd
Addasiadau rhesymol	https://www.cnwl.nhs.uk/wp-content/uploads/2012/04/Reasonable-adjustments.pdf
Addasiadau rhesymol	https://www.gov.uk/government/publications/reasonable-adjustments-for-people-with-learning-disabilities
Diwallu anghenion gofal iechyd corfforol	https://www.learningdisabilitytoday.co.uk/looking-for-an-ordinary-life
Gofal osgo	https://www.youtube.com/watch?v=BO_DwjqrEVI Safonau ar gyfer anabledau dysgu dwys a lluosog

Hefyd:

Canllawiau ar Gefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd:

<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/supporting-learners-with-healthcare-needs/?lang=cy>

Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru:

<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/special-education-needs-code-of-practice/?lang=cy>